

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

1 Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026

Cyflwyniad

Derbyniodd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ei hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 24 Ebrill 2024.

Nododd yr hysbysiad fod dyletswydd ar y cyd-bwyllgor i fodloni'r safonau a amlinellir yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ynghylch y Gymraeg, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r cyd-bwyllgor yn ymrwymedig i'r egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru, ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os byddant yn dewis gwneud hynny. Rydym yn rhannu ac yn cefnogi gweledigaethau pedwar awdurdod lleol Rhanbarth De-orllewin Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y mae eu harweinwyr yn aelodau o'r cyd-bwyllgor corfforedig ac y mae ganddynt eu strategaethau eu hunain ar gyfer hybu'r Gymraeg. Bydd gwaith Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru ym meysydd cynlluniau datblygu strategol, cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol a lles economaidd yn helpu i greu'r isadeiledd rhanbarthol a'r amodau economaidd-gymdeithasol a fydd yn cyfrannu at lwyddiant strategaeth pob awdurdod i hybu'r Gymraeg yn eu hardaloedd daearyddol eu hunain.

Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys 'Cymru lewyrchus', 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a Chymru 'â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n pwysleisio arwyddocâd datblygiad a ffyniant economaidd i hirhoedledd a bywiogrwydd y Gymraeg a'r cymunedau (daearyddol, sectoraidd neu rithwir) sy'n ei defnyddio.

Yn ogystal â hyn, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn ymrwymedig i nodau ac amcanion strategaethau a pholisïau eraill, megis 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr'⁴ a 'Nodyn cyngor technegol 20: cynllunio a'r Gymraeg'⁵, sydd â'r nod o gryfhau isadeiledd ieithyddol Cymru a helpu'r iaith i fynd o nerth i nerth.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n sefydliad cymharol ifanc, ac ar hyn o bryd nid yw'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Bodlonir gofynion statudol drwy gytundebau lefel gwasanaeth rhwng y cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lleol cyfansoddol priodol ac yn unol â hynny defnyddir rheolau sefydlog y rhain o ran meysydd fel recriwtio a gofynion polisi.



Mae atebolrwydd cyffredinol am y Gymraeg yng Nghyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn nwylo Prif Swyddog Gweithredu'r cyd-bwyllgor.

Adrodd

Dyma ail adroddiad Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ers iddo dderbyn ei hysbysiad cydymffurfio terfynol ar 24 Ebrill 2024 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Mae'r adroddiad hwn yn ofynnol yn ôl Safonau 158 a 164 ac mae'n nodi sut mae'r cyd-bwyllgor wedi cydymffurfio â'r Safonau Atodol canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Gweithredol
- Safonau Llundio Polisi

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data am y dangosyddion gofynnol fel a ganlyn:

- Nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg (Safon 151)
- Nifer y staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant a restrir yn Safon 128 os cawsant eu cynnig yn Gymraeg (Safon 152)
- Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categorioeddio'n swyddi lle (i) mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) mae angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl i rywun gael ei benodi i'r swydd; (iii) mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu lle (iv) nad oes angen sgiliau yn y Gymraeg (Safon 154)
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y cyd-bwyllgor (Safon 150)

Nifer y staff sydd â sgiliau Cymraeg (Safon 151)	Dd/b Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn
---	--



	adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.
Nifer y staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant a restrir yn Safon 128 os cawsant eu cynnig yn Gymraeg (Safon 152)	Dd/b Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.
Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categorïddio'n swyddi lle (i) mae sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) mae angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl i rywun gael ei benodi i'r swydd; (iii) mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu lle (iv) nad oes angen sgiliau yn y Gymraeg (Safon 154)	Dd/b Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.



Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (Safon 150)	0
---	---

Pennu'r Safonau

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cwmpasu'r ail gyfnod adrodd llawn ers i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyd-bwyllgor wedi parhau i gryfhau ei ymagwedd at gydymffurfiaeth o ran y Gymraeg ac wedi ceisio gwreiddio egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ymhellach yn ei drefniadau llywodraethu, ei brosesau gwneud penderfyniadau a'i drefniadau darparu gwasanaethau.

Gan adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol, mae'r pwyslais yn ystod y flwyddyn adrodd hon wedi bod ar ddatblygu a chyflawni Cynllun Gweithredu'r Gymraeg, monitro cydymffurfiaeth, a sicrhau bod ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hintegreiddio yng ngweithrediadau'r sefydliad o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi cynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau, cryfhau trefniadau llywodraethu mewnol, a sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o waith cynllunio a datblygu ehangach y sefydliad.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru wedi parhau i gydweithio ag awdurdodau partner a darparwyr gwasanaethau i hyrwyddo cyfleoedd i unigolion gyfathrebu â'r sefydliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gofynion y Gymraeg bellach wedi'u gwreiddio'n fwyfwy mewn cyfathrebiadau, gwybodaeth gyhoeddus a phrosesau gweinyddol, gan helpu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael mynediad at wasanaethau a gwybodaeth yn unol â'r Safonau.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae'r sefydliad wedi cynnal ymagwedd gadarnhaol a rhagweithiol at gydymffurfio. Cydnabyddir bod y Gymraeg yn ofyniad statudol, yn ogystal â bod yn rhan bwysig o hunaniaeth ddiwylliannol ac ieithyddol y rhanbarth y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n ei wasanaethu. Wrth i'r sefydliad barhau i aeddfedu, mae ymrwymiad cryf o hyd i wella'n barhaus, cynyddu ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau o ran y Gymraeg, a nodi cyfleoedd i wella'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir a'u hamlygrwydd.



Cyfeirnod	Maes gweithredu	Cam cydymffurfio	Swyddog â chyfrifoldeb	Terfyn amser	Cynnydd
1	Llywodraethu a goruchwyllo	Penodi Arweinydd Cydymffurfiaeth o ran y Gymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Mae Pennaeth Polisi a Gweinyddu'r cyd-bwyllgor yn ymgymryd â'r rôl hon
2	Llywodraethu a goruchwyllo	Trefnu cyfarfodydd cynnydd misol	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Mae bwrdd rhaglen y cyd-bwyllgor yn cwrdd bob chwarter a thrafodir unrhyw faterion perthnasol yn y cyfarfod hwnnw.
3	Cyfathrebu	Archwilio/diweddaru templedi gohebiaeth i gynnwys fersiynau Cymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Templedi wedi'u diweddarau yn ôl yr angen
4	Cyfathrebu	Hyfforddi staff i ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth Gymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.



5	Cyfathrebu	Ychwanegu datganiad croeso Cymraeg at bob gohebiaeth/cyhoeddiad	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Ychwanegwyd y datganiad
6	Gwasanaethau dros y ffôn	Diweddaru sgriptiau galwadau o ran cyfarchion a gwybodaeth am wasanaethau yn Gymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.
7	Gwasanaethau dros y ffôn	Hyfforddi staff i ymdrin â galwadau Cymraeg neu eu trosglwyddo	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac



					arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.
8	Cyfarfodydd a digwyddiadau	Diweddaru gwahoddiadau i ofyn am ddewis o ran y Gymraeg	Swyddog Monitro	Cyflawn	Rhoddwyd hyn ar waith
9	Cyfarfodydd a digwyddiadau	Trefnu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd yn ôl yr angen	Swyddog Monitro	Cyflawn	Rhoddwyd hyn ar waith
10	Cyhoeddusrwydd a dogfennau	Archwilio'r holl ddogfennau/ffurflenni/ddeunyddiau cyhoeddus; llunio fersiynau Cymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Rhoddwyd hyn ar waith
11	Gwasanaethau Digidol	Diweddaru'r wefan/fewnwyd i fod ar gael yn llwyr yn Gymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Lansiwyd gwefan newydd sy'n hollol ddwyieithog
12	Derbynfeydd a grantiau	Arddangos arwyddion croeso Cymraeg mewn derbynfeydd	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid oes gan y cyd-bwyllgor eiddo ffisegol.
13	Tendrau a chontractau	Cyhoeddi gwahoddiadau i dendro yn Gymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid yw'r cyd-bwyllgor yn ymgymryd ag unrhyw ymarferion tendro. Mae'n defnyddio Cyngor Sir Caerfyrddin at y dibenion hyn ac yn dilyn Safonau Cyngor Sir Caerfyrddin o ran y Gymraeg.
14	Polisiâu mewnol	Datblygu/cyhoeddi polisi mewnol o ran y Gymraeg	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Ar gael ar wefan y cyd-bwyllgor
15	Hyfforddiant a datblygu	Asesu sgiliau Cymraeg yr holl staff	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn



					uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.
16	Recriwtio	Asesu gofynion Cymraeg pob swydd	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Nid yw Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n cyflogi staff yn uniongyrchol. Darperir yr holl wasanaethau a swyddogaethau gweithredol drwy gytundebau lefel gwasanaeth â'r awdurdodau cyfansoddol. Felly, mae gofynion Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru o ran y Gymraeg yn cyd-fynd â safonau ac arferion yr awdurdodau hynny. Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau y darperir gwasanaethau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac yn adlewyrchu'r ymrwymïadau a'r rhwymedigaethau sydd



					eisoes wedi'u gwreiddio yn Safonau'r Gymraeg ym mhob un o'r awdurdodau cyfansoddol.
17	Cadw cofnodion ac adrodd	Sefydlu systemau i gofnodi cwynion, sgiliau, hyfforddiant, a chategorïau swyddi	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Mae'r Swyddog Monitro'n cadw'r gofrestr hon o ran cwynion.
18	Camau gweithredu atodol	Cyhoeddi dogfennau, gweithdrefnau cwyno a threfniadau o ran cydymffurfio	Prif Swyddog Gweithredu	Cyflawn	Mae'r dogfennau ar gael ar wefan y cyd-bwyllgor.
19	Monitro ac adolygu	Cynnal adolygiadau chwarterol o statws cydymffurfio	Prif Swyddog Gweithredu	Chwarterol	Parhaus – mae bwrdd rhaglen y cyd-bwyllgor yn cwrdd bob chwarter a thrafodir unrhyw faterion perthnasol yn y cyfarfod hwnnw lle y bo'n briodol.



Cyngor Abertawe
Swansea Council



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



Parc Cenedlaethol
Aifondd Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



Bannau
Brycheiniog